Sut i fynegi eich barn i ni am ein gwaith neu sut i gwyno amdano

Yr hyn sydd yn y daflen hon

	Tudalen
Taflen am beth yw hon	2
Ein haddewid	3
Sut i fynegi eich barn i ni am ein gwaith neu gwyno amdano	4
Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn dymuno cwyno	6
Ffurflen i'w llenwi er mwyn mynegi eich barn wrthym am ein gwaith, neu gwyno amdano	9

Taflen am beth yw hon

Ni yw **MPTS** (Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol).

Rydym yn dymuno clywed eich barn amdanom ni ac am ein gwaith.

Efallai eich bod yn dymuno:

- rhoi syniad i ni er mwyn ein helpu gyda'n gwaith

- dweud diolch

- dweud wrthym os ydych yn anhapus am rywbeth yr ydym wedi ei wneud (yr enw am hyn yw gwneud cwyn)

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych yr hyn i'w wneud.

Nid yw'r daflon hon yn sôn am y cam o gwyno am eich meddyg.

Ceir taflen arall am hyn, o'r enw
Yr hyn i'w wneud os nad ydych yn fodlon gyda'ch meddyg.

Mae ar ein gwefan, sef
www.gmc-uk.org/easyread

Ein haddewid

Pan fyddwch yn mynegi eich barn i ni:

- byddwn yn gwrando arnoch ac ar yr hyn yr ydych ei angen
- byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi mewn ffordd sy'n iawn i chi
- byddwn yn gwrtais, yn onest ac yn deg. Rydym yn gofyn i chi fod yn gwrtais ac yn deg gyda ni hefyd.

Sut i fynegi eich barn i ni am ein gwaith, neu gwyno amdano

Dywedwch wrthym:

- yr hyn a ddigwyddodd
- yr hyn yr ydych yn cwyno amdano neu'n dweud wrthym amdano
- yr hyn yr hoffech i ni ei wneud

Os oes problem, a fyddech gystal â dweud wrth yr unigolyn y gwnaethoch chi siarad gyda nhw o fewn MPTS yn y lle cyntaf, os oes modd i chi wneud hynny.

Efallai y bydd hyn yn datrys y broblem.

Neu mae ffyrdd eraill o fynegi eich barn i ni neu o wneud cwyn.

Mae modd i chi lenwi'r ffurflen sy'n cychwyn ar dudalen 9 y daflen hon.

Neu anfon e-bost at enquiries@mpts-uk.org

Neu ysgrifennu at:
Feedback and complaints
Medical Practitioners Tribunal Service
St James' Building
79 Oxford Street
Manchester M1 6FQ

Neu ffonio 0161 923 6602

Neu ddefnyddio Ffôn Testun er mwyn manteisio ar y Gwasanaeth Cyfleu Testun. Dylech ddeialu 18001 yna 0161 923 6602

Dywedwch wrthym os oes angen i chi gael unrhyw gymorth gennym. Er enghraifft, os bydd angen i chi gael gwybodaeth mewn ffordd benodol.

Byddwn yn ceisio ei gwneud yn hawdd i chi.

Mae modd i chi ofyn i rywun arall ddweud wrthym ar eich rhan hefyd.

Byddwn yn siarad gyda nhw yn lle gyda chi.

Byddwn yn cadarnhau gyda chi eich bod yn cytuno gyda hyn.

Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn dymuno cwyno

Weithiau, efallai na fydd modd i ni ystyried eich cwyn.

Er enghraifft, efallai y bydd y rheolau yn dweud bod angen i rywun arall edrych arni.

Byddwn yn dweud wrthych os bydd hyn yn digwydd.

Os byddwn yn ystyried eich cwyn

Gallai 3 pheth ddigwydd

1. Byddwn yn ceisio datrys y broblem gyda'r unigolyn o fewn MPTS y gwnaethoch chi siarad gyda nhw neu gyda rheolwr

Byddwn yn gwneud hyn yn gyntaf. Byddwn yn dweud ein hateb wrthych.

2. Ystyried eich cwyn yn fwy

Os na fyddwch yn hapus gyda'n hateb, efallai y byddwn yn ystyried eich cwyn yn fwy.

Byddwn yn:

- dweud wrthych ein bod wedi cael eich cwyn. Gallai hyn gymryd hyd at wythnos.
- gofyn i'r unigolyn cywir o fewn MPTS i ystyried eich cwyn

- ceisio ateb eich cwyn cyn pen 10 diwrnod gwaith neu lai. Byddwn yn dweud wrthych os allai hyn gymryd mwy o amser.

Byddwn yn ystyried eich cwyn.

Yn ogystal, byddwn yn ystyried sut y mae modd i ni ddysgu ohoni, a gwneud yn well y tro nesaf.

Ar ôl hynny, byddwn yn anfon ein hateb atoch. Byddwn yn gwneud hyn mewn neges e-bost fel arfer.

3. Os na fydd modd i ni ddatrys eich cwyn ar yr adeg hon

Efallai y byddwn yn gofyn i dîm arall o bobl sy'n gweithio i ni ei hystyried.

Byddant yn ystyried eich cwyn.

Byddant yn ysgrifennu atoch gyda'n hateb terfynol.

Eich gwybodaeth

Rydym yn dilyn y cyfreithiau ynghylch cadw eich gwybodaeth yn breifat ac yn ddiogel.

Ffurflen i'w llenwi er mwyn mynegi eich barn wrthym am ein gwaith, neu gwyno amdano

Amdanoch chi

Eich enw cyntaf ac olaf

_____

Eich cyfeiriad e-bost

_____

Eich rhif ffôn

_____



Os wnaethom roi rhif i chi mewn perthynas â'ch cwyn, a fyddech gystal â'i ysgrifennu yma. Enw'r rhif hwn yw **cyfeirnod**.

_____

A ydych yn siarad ar ran rhywun arall?

Os ydych, a fyddech gystal â dweud wrthym:

- eu henw

_____

- sut y mae modd i ni gysylltu â nhw

_____

_____

- sut ydych yn eu hadnabod (er enghraifft, a ydych yn ffrind, yn bartner, yn aelod o'r teulu neu'n rhywun arall)

_____

_____

Efallai y bydd angen i ni gadarnhau eu bod yn fodlon i chi siarad gyda ni.

A oes angen i chi gael unrhyw gymorth gennym?

Er enghraifft, a oes angen i chi gael fersiwn syml o'r wybodaeth neu unrhyw gymorth arall?

_____

_____

Beth ydych yn dymuno ei ddweud wrthym?

A ydych yn dymuno:

☐ Cwyno
(Dweud wrthym eich bod yn anfodlon gyda'n gwaith)

☐ Diolch i ni

☐ Dweud rhywbeth arall wrthym am ein gwaith neu roi eich syniadau i ni

A ydych chi'n dymuno cael ateb gennym?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

A fyddech gystal â dweud yr hyn yr hoffech ei ddweud wrthym neu'r hyn a ddigwyddodd. Beth wnaethom ni o'i le neu beth wnaethom ei wneud yn dda?

A ydych chi wedi dweud wrthym am hyn o'r blaen?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Beth ydych yn dymuno i ni ei wneud er mwyn helpu?

Diolch

A fyddech gystal ag anfon y ffurflen hon mewn neges e-bost at enquiries@mpts-uk.org

Neu ei hanfon at:
Feedback and complaints
Medical Practitioners Tribunal Service
St James' Building
79 Oxford Street
Manchester M1 6FQ